# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

**RHAN 3**

ETHOLIADAU

*Cofrestru etholiadol*

**15 Gwahoddiadau i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am wahoddiadau i'w rhoi o dan adran 9E(1) o Ddeddf 1983 (gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru) mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—

(a) ynghylch ffurf a chynnwys gwahoddiadau;

(b) ynghylch sut a phryd y mae'n rhaid rhoi gwahoddiadau;

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ffurflenni cais neu ddogfennau eraill (gan gynnwys ffurflenni cais a gwblhawyd yn rhannol) yn cyd-fynd â gwahoddiadau, neu'n cael eu cyfuno â gwahoddiadau.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) roi swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol (er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i'r Comisiwn ddylunio gwahoddiad).

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu (neu ddirymu) neu addasu unrhyw ddeddfiad.

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.